Archwilio Cymru
Audit Wales

# Llamu Ymlaen – Cynllunio'r Gweithlu – Cyngor Bro Morgannwg

Blwyddyn archwilio: 2021–22

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3122A2022

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. This document is also available in English.

# Cynnwys

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Mae’r Cyngor yn cymryd camau i wella ei drefniadau cynllunio’r gweithlu, ond mae angen iddo gryfhau cymhwysiad yr egwyddor datblygu cynaliadwy i lunio ymhellach ei ddull o gynllunio’r gweithlu 7

Mae’r Cyngor yn defnyddio ei brofiad o ddarparu gwasanaethau yn ystod pandemig i lywio’r gwaith o ddatblygu ei Gynllun Datblygu Gweithlu Strategol newydd, ond mae angen iddo sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn llunio ei waith cynllunio yn llawn 7

Mae gan y Cyngor drefniadau gwella i gefnogi a monitro’r broses o roi ei Gynllun Datblygu Gweithlu Strategol newydd ar waith, ond gellid cryfhau’r rhain ymhellach 9

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn a adolygwyd gennym a pham

1 Un o'r canfyddiadau yn ein hadroddiad Adolygiad o'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau a gyhoeddwyd yn 2020[1], oedd bod 'cyfle i gryfhau'r broses o gynllunio'r gweithlu i helpu i roi'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau ar waith, er bod y cymorth a ddarparwyd gan Adnoddau Dynol i brosiectau unigol wedi'i werthfawrogi'.

2 Nododd ein cyflwyniad Asesiad Sicrwydd a Risg i Gyngor Bro Morgannwg (y Cyngor) ym mis Ionawr 2021 fod cynllunio'r gweithlu yn risg oherwydd:

- bod pandemig COVID-19 wedi gohirio'r Strategaeth Adnoddau Dynol a fersiwn ddiweddaraf y Cynllun Datblygu Gweithlu Strategol;
- dim ond fel rhan o Adolygiad Ail-lunio Gwasanaethau y llynedd yr ystyriwyd y broses o gynllunio'r gweithlu ar lefel uchel; a
- goblygiadau ffyrdd newydd o weithio yn ystod y pandemig.

3 Rhwng mis Awst a mis Medi 2021, gwnaethom adolygu'r broses cynllunio gweithlu yn y Cyngor i gael sicrwydd bod y Cyngor yn datblygu ei broses cynllunio gweithlu yn effeithiol, ei fod yn cefnogi trefniadau i roi ei strategaeth ar waith, a'i fod yn gwerthuso ac yn dysgu o'r pandemig o ran ei weithlu.

4 Ar ddiwedd 2021, gwnaethom ddechrau adolygiad thematig cenedlaethol o'r enw Llamu Ymlaen ym mhob cyngor yng Nghymru. Canolbwyntiodd yr adolygiad cenedlaethol hwn ar ddau faes olrhain:

- rheoli asedau strategol; a
- rheoli'r gweithlu'n strategol.

5 Bwriad adolygiad Llamu Ymlaen oedd edrych ar sut y mae cynghorau'n defnyddio'r profiadau o bandemig byd-eang COVID-19, i gryfhau eu gallu i drawsnewid, i addasu ac i gynnal y broses o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a chymunedau allweddol. O ganlyniad i hynny, gwnaethom ddefnyddio ein gwaith maes o adolygiad y broses o gynllunio'r gweithlu yn 2021 i lywio ein hadolygiad Llamu Ymlaen dilynol, Yr adroddiad hwn yw ffrwyth y ddau adolygiad.

6 Pan oeddem yn dechrau ein gwaith archwilio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), gwnaethom gydnabod y byddai'n cymryd amser i gyrff cyhoeddus ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond gwnaethom nodi hefyd ein disgwyliad, dros y tymor canolig, y byddem yn disgwyl i gyrff cyhoeddus allu dangos sut mae'r Ddeddf yn llywio'r hyn

[1] Cyngor Bro Morgannwg – Adolygiad o'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau | Archwilio Cymru

y maent yn ei wneud. Mae'n agosáu at saith mlynedd ers pasio'r Ddeddf ac rydym bellach yn ail gyfnod adrodd y Ddeddf. Felly, rydym yn disgwyl i gyrff cyhoeddus allu dangos bod y Ddeddf yn rhan annatod o'u ffordd o feddwl ac yn llywio'r hyn y maent yn ei wneud yn wirioneddol.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

7 Canfuom fod y Cyngor yn cymryd camau i wella ei drefniadau cynllunio'r gweithlu, ond mae angen iddo gryfhau cymhwysiad yr egwyddor datblygu cynaliadwy i lunio ymhellach ei ddull o gynllunio'r gweithlu.

8 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor yn defnyddio ei brofiad o ddarparu gwasanaethau yn ystod pandemig i lywio'r gwaith o ddatblygu ei Gynllun Datblygu Gweithlu Strategol newydd, ond mae angen iddo sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn llunio ei waith cynllunio yn llawn
- mae gan y Cyngor drefniadau gwella i gefnogi a monitro'r broses o roi ei Gynllun Datblygu Gweithlu Strategol newydd ar waith, ond gellid cryfhau'r rhain ymhellach

## Argymhellion

**Pennawd arddangos: argymhellion**

| Argymhellion |
| --- |
| **Cryfhau cymhwysiad yr egwyddor datblygu cynaliadwy mewn cysylltiad â chynllunio'r gweithlu**<br><br>**Cynllunio**<br>A1<br>• datblygu darlun clir o anghenion gweithlu y Cyngor yn y dyfodol;<br>• gwella cydweithrediad allanol ymhellach mewn cysylltiad â chynllunio'r gweithlu;<br>• sicrhau, wrth ddatblygu cynlluniau gweithlu ar lefel gwasanaeth, fod ystyriaeth o'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael ei chymhwyso'n gyson;<br>• sicrhau cysondeb strategol rhwng strategaethau'r Cyngor megis datgarboneiddio, asedau a digidol;<br>• penderfynu ar oblygiadau adnoddau yn y dyfodol i gyflawni'r Cynllun Datblygu Gweithlu Strategol terfynol. |

**Argymhellion**

**Monitro**

A2

- ffurfioli diben, swyddogaeth a chyfrifoldeb y gweithgor cynllunio gweithlu wrth ddatblygu, rheoli, monitro ac adolygu'r Cynllun Datblygu Gweithlu Strategol;
- ffurfioli trefniadau monitro a meini prawf llwyddiant y Cynllun Datblygu Gweithlu Strategol ar gyfer y dyfodol;
- ystyried swyddogaeth aelodau a fydd yn monitro'r cynnydd o'i gymharu â'r Cynllun Datblygu Gweithlu Strategol yn y dyfodol; ac
- ymwreiddio cynllunio olyniaeth ymhellach ac egluro amserlenni ar gyfer adolygu; a
- sicrhau proses cyfweliadau ymadael mwy cyson a bod unrhyw wersi'n cael eu dysgu mewn cysylltiad â chynllunio'r gweithlu.

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor yn cymryd camau i wella ei drefniadau cynllunio'r gweithlu, ond mae angen iddo gryfhau cymhwysiad yr egwyddor datblygu cynaliadwy i lunio ymhellach ei ddull o gynllunio'r gweithlu

### Mae'r Cyngor yn defnyddio ei brofiad o ddarparu gwasanaethau yn ystod pandemig i lywio'r gwaith o ddatblygu ei Gynllun Datblygu Gweithlu Strategol newydd, ond mae angen iddo sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn llunio ei waith cynllunio yn llawn

9 Roedd gan y Cyngor Gynllun Gweithlu 2016–2020 ac roedd i fod i ddatblygu fersiwn newydd o'r Cynllun, ond gohiriodd y Cyngor y gwaith hwn wrth ymateb i'r pandemig. Ar adeg ein gwaith maes, roedd y Cyngor yn drafftio Cynllun Datblygu Gweithlu Strategol newydd.

10 Wrth ddatblygu ei gynllun gweithlu strategol newydd, mae'r Cyngor yn awyddus i ddysgu o'r ffordd y gweithiai ei staff yn hyblyg i gynnal y ddarpariaeth o wasanaethau allweddol yn ystod y pandemig. Cynhaliodd ddau arolwg i ddeall yr effaith ar iechyd meddwl y staff, eu gwaith a'u hanghenion TGCh. Mae wedi nodi nifer o agweddau cadarnhaol yn y modd yr ymatebodd ef a'i weithlu yn ystod y pandemig:

- cynnydd yn y defnydd o dechnoleg
- canolbwyntio'n well ar les ac ymgysylltu â'r staff
- gwell cydbwysedd bywyd a gwaith
- gweithio mwy hyblyg
- adleoli staff i gynnal darpariaeth o wasanaethau critigol.
- cryfhau gwaith partneriaeth rhwng gwasanaethau

11 Mae'r Cyngor wedi llunio Cynllun Gweithredu Datblygu Gweithlu sy'n ystyried yr hyn a ddysgwyd o gyfnod y pandemig ac sy'n cynnwys camau ar gyfer dylunio fframwaith gweithio hyblyg newydd a llunio strategaeth lles.

12 Roedd y staff y buom yn siarad â nhw yn ystod ein hadolygiad yn teimlo bod y Cyngor wedi eu cefnogi'n dda yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, er bod gweithio gartref wedi llwyddo i raddau helaeth gan barhau i ddarparu gwasanaethau, mae'r Cyngor yn credu bod rhai swyddogaethau rheng flaen na ellir eu darparu mor llwyddiannus o bell. Mae'r Cyngor yn drafftio polisi gweithio hybrid, gan adeiladu ar ei brofiad o'r pandemig ac ymgysylltiad diweddar â'r staff.

13 Mae cynllunio’r gweithlu yn un o’r saith gweithgaredd trefniadol craidd a restrir yn y canllawiau statudol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru). O ystyried pa mor hir y mae’r Ddeddf wedi bod mewn grym erbyn hyn, rydym bellach yn disgwyl ei gweld yn sbarduno ac yn llunio’r hyn y mae cyrff cyhoeddus yn ei wneud. Canfuom rai enghreifftiau cadarnhaol o’r ffordd y mae’r Cyngor yn cymhwyso rhai o’r pum ffordd o weithio wrth gynllunio ei weithlu:

- roedd y Cyngor yn cynnwys Undebau Llafur, ei dimau digidol a thrawsnewid, ei grŵp GLAM LHDT+ wrth ddatblygu’r Cynllun Datblygu Gweithlu Strategol;
- ymgysylltodd y Cyngor â chynghorau eraill i ddeall sut maen nhw’n datblygu eu cynlluniau gweithlu strategol;
- mae’r Cyngor wedi bod yn gweithio gydag eraill, fel Gofal Cymdeithasol Cymru, i helpu i ystyried sut y gall fynd i’r afael â rhai o’r heriau recriwtio a chadw sy’n gyffredin ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru;
- mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o’i weithlu presennol ac anghenion presennol ei weithlu, fel y dengys adran anghenion cynhwysfawr y gweithlu yn y gofrestr risg gorfforaethol. Mae hefyd yn datblygu dangosfwrdd recriwtio a fydd yn darparu gwell ddata ar dueddiadau, fel proffil oedran ymgeiswyr swyddi; ac
- mae’r Cyngor yn datblygu ei drefniadau i’w helpu i ddeall yn well y risgiau a’r cyfleoedd sy’n ymwneud ag anghenion ei weithlu. Mae’n paratoi dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau i’w gynnwys yn ei Gynllun Datblygu Gweithlu Strategol ac mae’r pecyn cymorth cynllunio olyniaeth yn cynnwys adran Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau i’r Penaethiaid Gwasanaethau ei chwblhau.

14 Fodd bynnag, er gwaethaf yr enghreifftiau hyn, roedd yn amlwg o’n gwaith maes yn 2021 fod y graddau yr oedd yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn sbarduno gwaith cynllunio gweithlu ar draws y Cyngor yn gryfach mewn rhai rhannau o’r sefydliad nag eraill. Mae’n bwysig sicrhau cysondeb wrth gymhwyso’r egwyddor datblygu cynaliadwy ar draws y sefydliad. Mae’r Cyngor yn cydnabod hyn ac yn cydnabod y gellid colli cyfleoedd posibl os na fydd ei ddull yn cael ei gryfhau. Dyma gyfleoedd eraill i gryfhau cymhwysiad yr egwyddor datblygu cynaliadwy:

- bod â darlun clir o’i anghenion ar gyfer gweithlu’r dyfodol er bod nod yn y Cynllun Gweithredu Datblygu Gweithlu drafft i ragweld gofynion y dyfodol. Bydd nodi’r mathau o sgiliau, cymwyseddau a swyddogaethau sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol yn cryfhau dull y Cyngor o gynllunio’r gweithlu strategol. Bydd ystyried sut y gellid darparu gwasanaethau yn y dyfodol yn allweddol hefyd.
- gwella cydweithrediad allanol y Cyngor ymhellach mewn cysylltiad â chynllunio’r gweithlu. Un enghraifft a ddaeth i’r amlwg yn ystod ein gwaith maes yn 2021 oedd bod rhinwedd wrth fynd â’r Cynllun Datblygu Gweithlu Strategol drafft i’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gychwyn trafodaeth ehangach ar gynllunio gweithlu’r dyfodol ar draws y sector cyhoeddus.

- ystyried y goblygiadau o ran adnoddau ar gyfer darparu ei Gynllun Datblygu Gweithlu Strategol yn y tymor byr a hir.
- integreiddio ymhellach Strategaeth Ddigidol, Cynllun Rheoli Carbon a Chynllun Rheoli Asedau Corfforaethol presennol y Cyngor gan fod pob un ohonynt yn cael eu diweddaru yn 2022. Mae hyn yn rhoi cyfle da i'r Cyngor gysoni'r strategaethau hyn ymhellach â'r Cynllun Datblygu Gweithlu Strategol ac i ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ehangach, i lunio ac i sbarduno fersiynau newydd y strategaethau hyn.

15 Cawsom gyfarfod â'r Pennaeth Adnoddau Dynol ym mis Chwefror 2022 i rannu ein canfyddiadau cychwynnol o'n hadolygiad cynllunio gweithlu ac i lywio ein holrheiniwr Llamu Ymlaen ar reoli'r gweithlu'n strategol.

## Mae gan y Cyngor drefniadau gwella i gefnogi a monitro'r broses o roi ei Gynllun Datblygu Gweithlu Strategol newydd ar waith, ond gellid cryfhau'r rhain ymhellach

16 Cawsom y sicrwydd canlynol o'r trefniadau i gefnogi'r broses o weithredu a monitro gwaith cynllunio gweithlu y Cyngor:

- mae Cynllun Gweithredu Datblygu Gweithlu drafft sy'n cynnwys nifer o gamau gweithredu tymor byr a all o bosibl arwain at newidiadau tymor canolig neu hirdymor fel datblygu systemau ac arferion i gefnogi'r cyfleoedd recriwtio a datblygu gyrfa ar gyfer gweithlu mwy amrywiol.
- un o gryfderau'r Cynllun Gweithredu Datblygu Gweithlu drafft yw bod camau gweithredu yn ceisio gwella data gweithlu y Cyngor a deall a mynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau yn ogystal â chanolbwyntio ar recriwtio a chadw staff.
- creodd y Cyngor weithgor Cynllunio Gweithlu sydd â'r potensial o fod yn ddull defnyddiol o reoli, monitro ac adolygu'r Cynllun Datblygu Gweithlu Strategol terfynol yn y dyfodol, pan fydd yn cael ei lunio.
- mae'r Cyngor yn mynd i'r afael yn gadarnhaol â threfniadau cynllunio olyniaeth ac yn eu ffurfioli drwy gyflwyno pecyn cymorth i Benaethiaid Gwasanaethau ei gwblhau a'i ddychwelyd i'r adran Adnoddau Dynol. Dylai'r pecyn cymorth roi mwy o gywirdeb i'r broses a helpu i nodi'n ffurfiol swyddogaethau allweddol a gwersi a datblygiad y gweithlu.
- mae'n bwysig bod y rhai sy'n gyfrifol am gynllunio'r gweithlu yn gyfforddus ac yn hyderus ynghylch sut i wneud hynny. Nododd y Cyngor yr angen i ddarparu hyfforddiant cynllunio gweithlu a'i fod wrthi'n cyflwyno hyn ar adeg ein gwaith maes.
- mae bwriad hefyd i gyflwyno cynlluniau gweithlu ar lefel gwasanaethau ac i gryfhau cynlluniau gweithlu mewn meysydd gwasanaeth.

17 Gallai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau i gefnogi'r broses o weithredu a monitro gwaith cynllunio gweithlu y Cyngor yn y ffyrdd canlynol:

- egluro swyddogaeth y gweithgor Cynllunio Gweithlu wrth ddatblygu, monitro ac adolygu'r Cynllun Datblygu Gweithlu Strategol. Ar adeg ein gwaith maes, nid oedd gan y grŵp hwnnw Gylch Gorchwyl. Mae angen sicrwydd ar y Cyngor bod cynrychiolaeth ar y grŵp hwnnw yn caniatáu i'r grŵp fod yn ddigon strategol.
- ystyried swyddogaeth aelodau a fydd yn monitro'r cynnydd o'i gymharu â'r Cynllun Datblygu Gweithlu Strategol yn y dyfodol.
- datblygu meini prawf llwyddiant ar gyfer ei Gynllun Datblygu Gweithlu Strategol. Ni chafodd rhai camau gweithredu yng Nghynllun Gweithlu 2016–2020 eu cwblhau erioed, oherwydd y pandemig yn rhannol, ond nid yn gyfan gwbl. Mae angen ffurfioli'r broses o fonitro'r Cynllun Datblygu Gweithlu Strategol yn y dyfodol, gyda meini prawf llwyddiant clir, fel y gellir mesur y cynnydd. Er enghraifft, er bod y Cynllun Gweithredu Datblygu Gweithlu yn cynnwys 'sut mae llwyddiant yn edrych', byddai'n elwa ar fesurau mwy cadarn i gefnogi'r datganiadau hynny – un pwynt llwyddiant yw 'Rhagor o'r staff yn manteisio ar ein cyfleoedd hyfforddi drwy ein system iDev'. Nid oes llinell sylfaen wedi ei phennu ar gyfer sut y byddai llwyddiant yn edrych.
- ymwreiddio cynllunio olyniaeth ymhellach yn y sefydliad ac egluro amserlenni adolygu. Mae'r pecyn cymorth cynllunio olyniaeth wedi ei ddefnyddio gan uwch reolwyr, ac rydym yn casglu mai'r bwriad yw sicrhau bod y pecyn cymorth cynllunio olyniaeth yn cael ei ddefnyddio ar wahanol lefelau yn y sefydliad maes o law.
- sicrhau bod proses gyson ar gyfer cyfweliadau ymadael a bod unrhyw wersi perthnasol o'r rhain yn cael eu hystyried yn ei drefniadau cynllunio gweithlu.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.